Cân Tymhorau

Cytgan
Gwanwyn a haf, hydref a gaeaf,
Dyma i chi'r holl dymhore,
Gwanwyn a haf, hydref a gaeaf,
Dyma i chi'r holl dymhore.

Yn y gwanwyn daw'r lili wen fach,
Blodau lliwgar mawr a bach,
Gwelwn gae llawn ŵyn bach gwyn
Yn prancio'n hapus ar y bryn

Cytgan

Cawn hufen iâ yn yr haf
Pam ma'r tywydd o mor braf,
Ar y traeth cawn bicnic blasus,
Chwarae gemau, rhedeg rasus

Cytgan

Dail y coed sy'n newid lliw
Yn yr hydref, amryliw,
Oren, brown, coch a melyn,
'Drychwch ar y dail yn disgyn, Ow!

Cytgan

Rhaid gwisgo'n gynnes yn y gaea'
Het, sgarf, menyg a chotia',
Adeiladwn ddyn eira bychan,
Cwtshio'n braf o flaen y tan.

© 2020 S4C